Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024

# Da Byw

FARMING connect cyswllt FFERMIO

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Cynhaliwyd **5** Prosiect Grŵp Trafod yn cynnwys **85** o ffermwyr:

- Rheoli ac atal mastitis clinigol ac is-glinigol
- Lleihau amonia mewn diadelloedd defaid masnachol
- Prosiect uwchsain thorasig ar ffermydd
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr Defaid - beth os…?
- Effeithlonrwydd y ddiadell a lleihau clefydau rhewfryn

## Grwpiau Trafod

| Themâu | Nifer y Cyfarfodydd Grwpiau Trafod | Nifer yr oriau Trosglwyddo Gwybodaeth | Unigolion a gefnogwyd |
|---|---|---|---|
| Da byw | 40 | 75.5 | 209 |



**Enghreifftiau da byw:**

- Clefydau rhewfryn
- Elfennau Hybrin mewn systemau Bîff
- Data'r ddiadell ac archwiliadau post mortem
- Arwyddion y fuwch
- Ansawdd llaeth a hylendid
- Genomeg a magu heffrod

## Dosbarthiadau Meistr

**90** o fynychwyr ar draws **8** Dosbarth Meistr gan gynnwys -

- Meistr ar Ffrwythlondeb – buchesi sugno
- Meistr ar Fagu Lloi
- Meistr ar Gloffni – Llaeth a Defaid

**Adborth:**

*"O ganlyniad i'r dosbarth meistr, byddaf yn lleihau am faint mae'r gwartheg llaeth yn sefyll er mwyn gwella iechyd a lles anifeiliaid."*

## Hyfforddiant Achrededig

Cefnogwyd **77 o unigolion** o **75 busnes gwahanol,** gan gwblhau **79 o gyrsiau hyfforddiant.**

**Darparwyd 1233 awr o hyfforddiant a'r cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:**

| Cwrs | Unigolion a gefnogwyd | Oriau Hyfforddiant a ddarparwyd |
|---|---|---|
| Sganio defaid | 20 | 280 |
| DIY Ffrwythloni artiffisial | 19 | 408 |
| Cneifio defaid gyda pheiriant | 16 | 256 |

**Adborth:**

*"Fe wnes i ddysgu llawer. Fe es i o fethu â chneifio i allu cneifio'n eithaf da erbyn diwedd y cwrs."* **(Cneifio defaid gyda pheiriant)**

## Mentora

**57** unigolyn wedi cael mynediad at fentora

**202** awr o fentora

**167** sesiwn fentora

**Roedd 58% o'r holl sesiynau'n ymwneud â'r thema hon**

**Mae unigolion yn gofyn am wasanaeth mentora ar y pynciau canlynol sy'n ymwneud**




**Ceisiadau a dderbyniwyd**

- Defnyddio cŵn defaid **17**
- Iechyd a lles anifeiliaid **3**

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

*"Buom yn trafod bwydo, pori a dognau. Fe wnes i eu tywys o gwmpas y siediau dofednod ac egluro sut mae hyn yn gweithio. Eglurais i'r mentai sut i raddio ŵyn drwy ddethol 5 oen ac egluro beth yw ŵyn ysgafn, canolig, trwm a gorbwysau."*

*"Sgwrs gyda'r mentai am y rhestr o fanteision ac anfanteision ei fenter sugno o safbwynt ariannol ynghyd â manteision ac anfanteision llai amlwg. Gofynnais i'r mentai gyfrifo mynegai lloia ar gyfer ei fuches sugno."*

*"Mae'r mentai wedi magu mwy o hyder ac roedd y ci'n gwrando'n well. Mae cyfarwyddiadau chwith a dde'r ci wedi gwella ond mae angen mwy o waith. Mae'r ci'n awyddus i weithio gyda'r defaid ac nid yw'n fodlon gwrando ar y cyfarwyddyd i stopio."*

## Clinigau

Cwblhawyd **56** clinig

**Adborth:**

*"Roedd y wybodaeth am brofi dŵr unigol yn ddefnyddiol iawn, ac mae wedi ein helpu i gynllunio ein maeth/ategolion ar gyfer geifr drwy wybod beth sydd yn y dŵr a beth sydd angen ei ychwanegu. Fe wnaethom ni hefyd ganfod lefel o halogiad bacteria nad oeddem yn ymwybodol ohono, felly byddwn yn gosod offer hidlo eleni gobeithio pan fydd y cyllid yn caniatáu."*

## Digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol

**4** Digwyddiad **60** o fynychwyr

**Roedd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar faeth da byw.**

**Adborth:**

*"Digon o wybodaeth berthnasol, roedd gan y siaradwr ddigon o wybodaeth, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer busnesau"*

## Agrisgôp

**9 cyfarfod Agrisgôp** wedi'u cynnal:

- **60** o fynychwyr
- **24** awr

Bu grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Nod y cyfarfod oedd diweddaru aelodau ar y gwaith ymchwil diweddar sy'n cysylltu cloffni a geneteg. Y brif neges oedd ddechrau ymgorffori 'Mantais o ran Cloffni i benderfyniadau genetig ac i edrych ar genomeg heffrod er mwyn helpu gyda phenderfyniadau bridio.
- Bu'r cyfarfod yn canolbwyntio ar aelodaeth ac achrediad Pasture for Life a sut y byddai hyn yn gwella effeithlonrwydd y fferm drwy rannu syniadau a phrofiadau gyda ffermwyr eraill sydd hefyd yn gweithio i beidio â defnyddio ddwysfwyd a grawn i leihau costau mewnbynnau porthiant.
- Diweddariad ar y data meincnodi ar gyfer y grŵp gan gynnwys sgoriau symudedd, sgoriau symudedd llaethiad cyntaf a nifer yr achosion o glwyfau. Buom yn trafod amcanion y grŵp at y dyfodol gan ganolbwyntio'n bennaf ar heffrod.

## e-ddysgu

**85** Cefnogwyd **85 unigolyn** o **73 busnes gwahanol**. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o fewn y sector Amaeth – Llaeth. Cwblhawyd 51 cwrs.

| Modiwl | Unigolion a gefnogwyd |
|---|---|
| e-ddysgu: Uned Orfodol: Cloffni mewn Gwartheg | 32 |
| e-ddysgu: Uned Orfodol: Ffrwythloni Artiffisial | 32 |
| e-ddysgu: Erthylu mewn Gwartheg | 5 |
| e-ddysgu: Asesiadau Sgôr Cyflwr Corff - Defaid | 5 |
| e-ddysgu: Erthylu mewn Mamogiaid | 5 |

Ceir 71 o fodiwlau e-ddysgu ar BOSS erbyn hyn. Mae'r modiwlau newydd a ychwanegwyd yn cynnwys:

**e-ddysgu: Defnyddio Anthelminitigau yn Gynaliadwy**
**e-ddysgu: Ymwrthedd i Wrthfiotigau**

## Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

**494** Cefnogwyd **494 unigolyn** o **372 o fusnesau gwahanol**

| Gweithdai a Gynhaliwyd | Nifer yr unigolion a gefnogwyd | Nifer yr oriau o hyfforddiant |
|---|---|---|
| 45 | 620 | 1860 |

O'r 14 pwnc a gyflwynwyd mewn gweithdai, dyma rai o'r pynciau mwyaf poblogaidd:

| Pwnc gweithdy | Unigolion a gefnogwyd | Oriau o hyfforddiant |
|---|---|---|
| Colli Ŵyn Rhan 1: Erthylu a Maeth | 620 | 1860 |
| Bwydo'r Ddiadell i Sicrhau'r Perfformiad Gorau | 45 | 45 |
| Cloffni mewn defaid | 45 | 45 |
| Colli Ŵyn Rhan 2: Colledion ŵyn o enedigaeth hyd at ddiddyfnu | 45 | 45 |

**Adborth:**
*"Cwrs gloywi da cyn wyna gan filfeddyg fferm gwybodus ac ymarferol."* (Colli Ŵyn Rhan 1: Erthylu a Maeth)

## Gwasanaeth Cynghori

Fe wnaeth y gwasanaeth gefnogi'r cyngor canlynol:

- **40** Iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch
- **187** Milfeddygaeth arbenigol
- **15** Da byw

**Adborth:**
*"Cymorth a chyngor ardderchog sydd wedi bod yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer y busnes"*
*"Cyngor anhygoel, wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n busnes"*

## Cymorthfeydd

Cwblhawyd **35** cymhorthfa. Roedd pynciau'n cynnwys -

- Maeth
- Ansawdd llaeth

## Erthyglau

**Gallai prawf DNA malwod llaid roi atebion o ran perygl llyngyr yr iau mewn diadelloedd defaid Cymru**

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru

- **2** Taith Astudio Geneteg
- **5** Gweithdy Geneteg
  - Cofnodi yn ystod wyna (â llaw) • Cofnodi yn ystod wyna (DNA) • Defnyddio EID i gofnodi perfformiad y ddiadell • Gweithdy Bridio a'r Farchnad Eneteg
- **1** Datganiad i'r Wasg Geneteg - Cyfarfodydd adolygu blynyddol
- **1** Gweminar Geneteg - Maeth y famog – cyn ac ar ôl wyna
- **2** Cyfarfod Adolygu Blynyddol - Cynnydd genetig a bridio ar gyfer y dyfodol
- **2** Clinigau geneteg (un-i-un) - EID a meddalwedd

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government